

CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	23 GORFFENNAF 2020
TEITL:	RHEOLAETH TRYSORLYS 2019/20
PWRPAS:	Mae'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgaredd Rheolaeth Trysorlys y Cyngor
ARGYMHELLIAD:	DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

Crynodeb Gweithredol

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20 arhosodd gweithgaredd benthycu'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol a derbyniwyd £546,000 o log ar fuddsoddiadau sydd yn uwch na'r £406,000 a oedd yn y gyllideb. Ni wnaeth unrhyw fanc yr oedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda methu â thalu, a chyrrhaeddwyd pob dangosydd darbodus.

1. Cyflwyniad

Cymeradwywyd y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys gan y Cyngor llawn ar y 7fed o Fawrth 2019.

Penderfynwyd yn y Pwyllgor Pensiynau, 14 Mawrth 2019 i ganiatáu i gronfeydd dros ben y Gronfa Bensiwn gael eu cyfuno a'u cyd-fuddsoddi â llif arian cyffredinol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.

Mae'r Cyngor wedi benthycu a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli symiau sydd wedi cael eu buddsoddi a'r effaith refeniw o newidiadau mewn cyfraddau llog. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risg yn ganolog i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

Mae'r adroddiad yma yn cymharu gwir berfformiad yn erbyn y strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 ac yn cyflawni dyletswydd gyfreithiol y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i gymryd ystyriaeth o Gôd CIPFA ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

2. Gwethigareddau Buddsoddi Trysorlys

Mae'r Cyngor wedi dal cronfeydd buddsoddi sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod 2019/20, amrywiodd balansau buddsoddi'r Cyngor rhwng £23.2 miliwn a £71.2 miliwn.

Mae Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd a nod y Cyngor ydi sicrhau enillion sy'n gymesur â'r egwyddorion hyn.

Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys

	31.3.19 Balans £m	2019/20 Symudiad £m	31.3.20 Balans £m	31.3.20 Cyfradd %	31.3.20 WAM* (diwrnodau)
Banciau & Cymdeithasau Adeiladu (heb ei ddiogelu)	15.2	(6.5)	8.7	0.57	122.3
Cronfeydd Marchnad Arian	9.4	(0.3)	9.1	0.42	10.5
Cronfeydd Eiddo	9.6	(1.3)	8.3	3.99	365+
Cyfanswm buddsoddiadau	34.2	(8.1)	26.1		

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwysu

Mae Côt Ymarfer CIPFA ac arweiniad y llywodraeth yn gofyn i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus ac i roi sylw i ddiogelwch a hylifedd buddsoddiadau cyn chwilio am y gyfradd uchaf o ddychweliadau neu gynnyrch. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng risg a dychweliadau, lleihau'r risg o achosi colledion o ddiffygion a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi isel anaddas.

Mae £8.3m o fuddsoddiadau'r Cyngor yn cael eu dal mewn cronfeydd ecwiti cyfun strategol a chronfeydd eiddo a reolir yn allanol lle mae hylifedd byrdymor yn ystyriaethau llai, a'r amcanion yn eu lle yw incwm referniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor. Cynhyrchodd y cronfeydd hyn enillion incwm o 3.99%, ond colled cyfalaf heb ei gwireddu o £1.3m yn y flwyddyn ariannol yma.

Mewn cyfnod cymharol fyr ers dechrau'r pandemig COVID-19, roedd y canlyniadau economaidd byd-eang yn finiog ac yn fawr. Roedd ymateb y farchnad yn eithafol gyda gostyngiadau mawr mewn ecwitiau, marchnadoedd bondiau corfforaethol ac, i ryw raddau, ystâd real sy'n adleisio parlys a ysgogwyd gan cyfyngiadau symud a'r heriau anhysbys i lywodraethau, busnesau ac unigolion.

Gan fod y Cyngor yn fuddsoddi mewn cronfeydd ecwiti ac eiddo, adlewyrchwyd y gostyngiadau yng ngwerthoedd cyfalaf yr asedau sylfaenol ym mhriadau'r Gronfa ar 31 Mawrth gyda phob cronfa'n cofrestru adenillion negyddol dros 12 mis hyd at fis Mawrth. Ni fydd y colledion cyfalaf heb eu gwireddu hyn yn cael effaith ar y Gronfa Gyffredinol gan fod y Cyngor wedi dewis cyflwyno newidiadau yng ngwerthoedd teg y cronfeydd yn yr incwm cynhwysfawr arall.

Meincnodi Buddsoddiadau

	Sgôr Credyd	Graddfa Credyd	Amlygiad 'Bail-in'	WAM* (diwrnodau)	Cyfradd Dychwelyd
31.03.2019	4.96	A+	92%	41	2.13%
31.03.2020	4.99	A+	100%	31	1.97%
A.LI Tebyg	3.77	AA-	29%	27	0.65%
Pob A.LI	3.94	AA-	56%	20	1.23%

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwysu

Roedd y balansau arian cyfartalog yn £48.9m yn ystod y flwyddyn. Mae Cyfradd Banc y DU wedi bod yn 0.75% ers Awst 2018, ond yn sgil y goblygiadau COVID-19 torrwyd y gyfradd i 0.25%, ac ar ôl hynny 0.10% ym mis Mawrth 2020. Mae cyfraddau'r farchnad arian tymor byr wedi aros ar lefelau cymharol isel. Gwnaed adneuron newydd ar gyfradd gyfartalog o 0.57%. Cynhyrchodd buddsoddiadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian gyfradd gyfartalog o 0.42%.

Roedd amcan y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi y Cyngor yn £0.406m am y flwyddyn. £0.546m oedd alldro incwm buddsoddiad y Cyngor ar gyfer y flwyddyn.

3. Adroddiad Cydymffuriad

Mae'r Pennaeth Cyllid yn falch o adrodd bod yr holl weithgareddau rheolaeth trysorlys a ymgwymerwyd yn ystod 2019/20 yn cydymffurfio gyda Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor. Mae'r cydymffuriad gyda cyfyngiadau buddsoddi penodol yn cael ei ddangos yn y tabl isod.

Cyfyngiadau Buddsoddi

	2019/20 Uchafswm	31.3.20 Gwir	2019/20 Terfyn	Cydymffurfiwyd
Unrhyw sefydliad unigol, heblaw Llywodraeth y DU	£8m yr un	£3m	£3.865m	✓
Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un perchnogaeth	£8m y grŵp	£3m	£3.865m	✓
Unrhyw grŵp cronfeydd o dan yr un rheolaeth	£20m y grŵp	£5m	£5m	✓
Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer	£40m y brocer	£0m	£0m	✓
Gwledydd tramor	£8m y wlad	£0m	£2m	✓
Darparwyr cofrestredig a lanlordiadau cymdeithasol cofrestredig	Cyfanswm o £20m	£0m	£0m	✓
Buddsoddiadau heb eu gwarantu mewn Cymdeithasau Adeiladu	Cyfanswm o £8m	£0m	£2m	✓
Benthyciadau i gorfforaethau heb eu radio	Cyfanswm o £8m	£0m	£0m	✓
Cronfeydd Marchnad Arian	Cyfanswm o £40m	£9.135m	£30m	✓
Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real	Cyfanswm o £20m	£0m	£0m	✓

4. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei ddatguddiad i risgiau rheolaeth trysorlys drwy ddefnyddio'r mesuryddion canlynol:

Diogelwch: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartal wedi'i bwysu ar gyfer y portffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysu yn ôl hyd bob buddsoddiad. Mae buddsoddiadau heb ei graddio yn cael sgôr yn seiliedig ar y risg canfydded.

	31.3.20 Gwir	2019/20 Targed	Cydymffurfiwyd
Sgôr credyd cyfartal y portffolio	4.99	Sgôr o 6 neu is	✓

Hylifedd: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol er mwyn mesur ei amlygiad i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael er mwyn gallu cwrdd a taliadau annisgwyl o fewn cyfnod tri mis dreigl, heb fenthyciadau ychwanegol.

	31.3.20 Gwir	2019/20 Targed	Cydymffurfiwyd
Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis	£14.9m	£10m	✓

Datguddiad Cyfraddau Llog: Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfraddau llog. Roedd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol, a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthyciwyd, yn:

	31.3.20 Gwir	2019/20 Terfyn	Cydymffurfiwyd
Terfyn uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog sefydlog	£0	£761,000	✓
Terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog cyfnewidiol	£0	£0	✓

Symiau a fuddsoddir am gyfnod hwy na 364 diwrnod: Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad i'r risg o golled allai godi os yw'r Cyngor yn gorfod ad-dalu'r symiau a fuddsoddiwyd yn gynnar. Y cyfyngiadau ar symiau y gellir buddsoddi gydag aeddfedrwydd heibio diwedd y cyfnod oedd:

	2019/20	2020/21	2021/22
Gwir brifswm a buddsoddiwyd heibio diwedd y flwyddyn	£10m	£0	£0
Terfyn ar gyfer prifswm a fuddsoddiwyd heibio diwedd y flwyddyn	£20m	£20m	£20m
Cydymffurfiwyd	✓	✓	✓